# Y CABINET YN EISTEDD FEL YMDDIRIEDOLWYR YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE DYDD MAWRTH, 16 GORFFENNAF 2024

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Elin Walker Jones, Paul Rowlinson a Menna Trenholme.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Eitem 6: Roland Wyn Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, Adran Economi a Chymuned), Nêst Thomas (Rheolwr Amgueddfeydd a'r Celfyddydau) a Megan Corcoran (Swyddog Datblygu Amgueddfeydd ac Rheolwr Prosiect Cynllun SPF Amgueddfa Lloyd George)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Nia Jeffreys a Craig ab Iago.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Medi 2021 fel rhai cywir.

## 5. CAU ALLAN Y WG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal yr wybodaeth hynny) a Paragraff 16 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â'r sawl y byddai modd cynnal hawl o fraint gyfreithiol broffesiynol mewn achos cyfreithiol.**

Mae'r adroddiad ynglŷn a sefyllfa ac opsiynau ar gyfer rheolaeth elusen y mae'r

Cyngor yn ymddiriedolwr ohono. Felly, mae’r swyddogaeth yma ar wahân oddi wrth sefyllfa'r Cyngor fel awdurdod cyhoeddus statudol ac yn ddarostyngedig i ofynion a chyfrifoldebau penodol rheolaeth elusen. Mae budd cyhoeddus mewn cael gwybodaeth am sut mae’r Cyngor yn gweithredu mewn swyddogaeth o’r fath. Fodd bynnag mae hyn yn cael ei gyfarch drwy gyfraith elusennau, Mae’r adroddiad yma ynglŷn â thrafodion busnes ac opsiynau y dylai’r ymddiriedolwyr gael cyfle priodol i’w trafod a chloriannu mewn modd rhydd ac agored cyn dod i gasgliad gorau er budd yr elusen. Byddai cynnal y drafodaeth yn gyhoeddus yn tanseilio eu gallu i gyflawni hyn. Y Cabinet yn eistedd fel ymddiriedolwyr yw’r unig fforwm priodol ar gyfer gweithredu hyn. Felly mae’r budd cyhoeddus o blaid eithrio.

## 6. YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cynorthwyol Diwylliant Adran Economi a Chymuned.

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwywyd cwblhau’r Cytundeb o Ddealltwriaeth ddrafft sy’n gosod trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Elusen Amgueddfa Lloyd George (Yr Ymddiriedolaeth) a Chyngor Gwynedd (Y Cyngor), sy’n darparu’r gefnogaeth arbenigol a’r gwasanaethau atodol i redeg a gweithredu’r Amgueddfa ar ran yr elusen.
2. Cymeradwywyd cwblhau’r Cytundeb o Ddealltwriaeth drafft sy’n gosod y trefniadau cydweithio rhwng Yr Ymddiriedolaeth, Y Cyngor a Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George.
3. Derbyniwyd y diweddariad ar weithredu’r Achos busnes a chyfaniad Cyfeillion Amgueddfa Lloyd George.
4. Ymatebwyd i’r prosiect SPF a’r cynlluniau amlinellol i ail-ddehongli a moderneiddio’r Amgueddfa.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 3:00pm a daeth i ben am 3:40pm

**CADEIRYDD**